# YR ATODLEN

Erthygl 2(2)

## CYNLLUN 2014 I DDIDDYMU ARDALOEDD A BYRDDAU DRAENIO MEWNOL RHANNAU ISAF AFON GWY A CHIL-Y-COED A GWYNLLŴG A CHREU ARDAL DRAENIO MEWNOL NEWYDD A'I THROSGLWYDDO I GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU A GYFLWYNWYD GAN GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

**1.** Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Ebrill 2015.

**2.** Yn y Cynllun hwn—

mae i "aelod" yr un ystyr a roddir i "*member*" yn adran 124(1) o ddeddf Pensiynau 1995(**1**);

mae i "aelod actif" yr un ystyr ag "*active member*" yn Atodlen 1 i Reoliadau LGPS;

ystyr "Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg" yw'r bwrdd draenio mewnol a gyfansoddwyd gan Orchymyn Ardal Draenio Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg 1942(**2**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Bwrdd Afon Wysg 1954(**3**) ac ystyr "Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg" yw'r ardal draenio mewnol a gyfansoddir gan y Gorchmynion hyn;

ystyr "Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy" yw'r bwrdd draenio mewnol a gyfansoddwyd gan Orchymyn Bwrdd Dalgylch Afon Gwy (Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy) 1950(**4**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy ac Afon Llugwy (Newid Ffiniau) 2014(**5**) ac ystyr "Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy" yw'r ardal draenio mewnol a gyfansoddwyd gan y Gorchmynion hyn;

ystyr "cyflogai" yw unigolyn sydd wedi ymrwymo i gontract gwaith neu gontract gwasanaeth neu brentisiaeth neu sy'n gweithio o dan delerau contract neu brentisiaeth o'r fath, pa un a yw'r cyfryw gontract wedi'i gytuno'n ddatganedig (yn ysgrifenedig neu ar lafar) neu fod hynny ymhlyg yn natur y berthynas, ond nid yw'n cynnwys unigolyn sy'n darparu gwasanaethau dan gontract ar gyfer gwasanaethau, a rhaid dehongli "cyflogwr" a "cyflogaeth" yn unol â hynny;

ystyr "Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol" yw'r cynllun a sefydlwyd gan y Rheoliadau LGPS;

ystyr "dyddiad cychwyn" yw'r dyddiad y daw'r Cynllun i rym;

ystyr "Rheoliadau LGPS" yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013(**6**);

ystyr "Rheoliadau Trosiannol LGPS" yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbed a Diwygio) 2014(**7**);

ystyr "y Corff" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**8**).

### Diddymu Ardaloedd a Byrddau presennol a sefydlu Ardal newydd

**3.** O'r dyddiad cychwyn ymlaen—

(a) mae Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy wedi eu diddymu;

(b) mae Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg wedi eu diddymu;

(**1**) 1995 p. 26
(**2**) O.S. 1942/2393
(**3**) O.S. 1954/276
(**4**) O.S. 1951/3
(**5**) O.S. 2014/3194
(**6**) O.S. 2013/2356
(**7**) O.S. 2014/525
(**8**) O.S. 2012/1903

(c) bydd ardal draenio newydd a elwir "Ardal Draenio Mewnol Gwent" yn cael ei chyfansoddi ar gyfer y tir a oedd gynt o fewn Ardal Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a'r tir a oedd gynt o fewn Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg;

(d) y Corff fydd y bwrdd draenio ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Gwent; ac

(e) bydd yr holl eiddo, hawliau, pwerau, dyletswyddau, rhwymedigaethau ac atebolrwydd fel yr oeddent wedi'u breinio ym Mwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy neu Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg neu i gael eu cyflawni gan y Byrddau hynny yn union cyn y dyddiad cychwyn, yn cael eu trosglwyddo i'r Corff a'u breinio ynddo, neu i gael eu cyflawni ganddo (yn ôl y digwydd).

**4.** Caiff y Corff adennill holl ôl-ddyledion ardrethi a godwyd gan Fwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy neu gan Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg cyn y dyddiad cychwyn mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod sy'n dod i ben cyn y dyddiad cychwyn yn yr un modd â phe baent wedi eu codi gan y Corff**.**

**5.** Yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol y caiff y Cynllun hwn ei wneud ynddi, caiff y Corff adennill ôl-ddyledion ardrethi dim ond hyd at y lefel a bennwyd gan Fwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn eu trefn ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

**6.** Mae'r Cynllun i'w weithredu fel tystiolaeth bendant o bob peth a drosglwyddwyd o dan y Cynllun hwn heb fod angen unrhyw aseiniadau, trawsgludiadau neu weithredoedd trosglwyddo pellach.

## Cyflogeion

**7.** O'r dyddiad cychwyn ymlaen, bydd holl gyflogeion Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn trosglwyddo i'r Corff.

## Pensiynau

**8.** Bydd unrhyw ddarpariaethau o'r Rheoliadau LGPS neu'r Rheoliadau Trosiannol LGPS a oedd yn union cyn y dyddiad cychwyn yn rhoi swyddogaethau i Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg yn rhinwedd y ffaith ei fod yn gyflogwr aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael effaith o'r dyddiad cychwyn ymlaen, fel pe bai y Corff yn gyflogwr ar yr aelod ar hyd yr amser pan oedd y person hwnnw yn aelod actif.